**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

**This response was submitted to the Equality and Social Justice Committee consultation on Social Partnership and Public Procurement (Wales) Bill**

**SPPP 13**

**Ymateb gan: CGGC | Response from: WCVA**

---

# Y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

## YMATEB GAN CGGC

1. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.

2. Bydd ein hymateb i'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar ddarpariaethau'r Bil. Diolchwn i'r mudiadau hynny o'r sector gwirfoddol sydd wedi cyfrannu at yr ymateb hwn.

## SEFYDLU CYNGOR PARTNERIAETH GYMDEITHASOL

3. Mae CGGC yn cefnogi'r nod o weithio mewn partneriaeth 'i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion i'r heriau economaidd a chymdeithasol a'r heriau eraill sy'n wynebu Cymru' gant y cant.

4. Mae CGGC yn cefnogi'r cysylltiad ffurfiol rhwng y cymal ar ddatblygu cynaliadwy yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bil hwn.

5. Er ein bod yn deall bod y Bil yn canolbwyntio ar gyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr, yn hytrach nag ar ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau, rydym yn parhau i bryderu ynghylch sut bydd y lefel isel o aelodaeth ag undebau llafur yng Nghymru yn effeithio ar effaith y ddeddfwriaeth hon pe bai'n dod yn Ddeddf. Mae CGGC yn gwbl gefnogol o undeboli. Fodd bynnag, noda'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol nad yw hyd yn oed un rhan o dair o weithwyr yng Nghymru yn aelodau o undebau (dogfen Saesneg yn unig), ac yn ôl ffigurau'r TUC, dim ond 9% o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig sy'n aelodau o undeb llafur (gwefan Saesneg yn unig). Golyga hyn nad yw'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol (SPC), o bosibl, yn clywed llawer o leisiau, yn enwedig o blith cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Byddai hyn yn bendant yn mynd yn groes i fwriadau'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, yn enwedig o ran 'rhoi profiadau bywyd pobl wrth wraidd' y gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru gofio am egwyddor cynnwys Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol a

phwysigrwydd cyd-gynhyrchu ym mhopeth y mae'n ei wneud er mwyn lleihau'r perygl o senarios fel hyn.

6. Ymddengys fod Llywodraeth Cymru wedi awgrymu, os nad cydnabod yn bendant, y broblem o ran aelodaeth isel o undebau llafur, drwy gyfeirio at 'gynrychiolwyr staff eraill' pan nad oes cynrychiolaeth ar gael o undeb llafur. Mae angen rhagor o fanylion ar beth allai hyn ei olygu. Sut bydd y meysydd gwaith hynny heb undeb llafur cydnabyddedig yn cael eu gofyn i ddod o hyd i'r 'cynrychiolwyr eraill' hyn? Bydd yn hanfodol nad yw'r broses hon yn hepgor lleisiau lleiafrifoedd. Mae'r ffaith nad yw'r Bil yn rhagweld unrhyw gynrychiolaeth i weithwyr nad yw'n undeb llafur yn parhau i fod yn bryder difrifol.

7. Bydd naw cynrychiolydd cyflogwyr a naw cynrychiolydd cyflogeion ar yr SPC. Mae'n rhaid i'r broses benderfynu y tu ôl i sut bydd y cynigion cynrychioli hyn yn cael eu cyhoeddi fod yn dryloyw. Pwysleisiwn eto ei fod yn hanfodol bod y sector gwirfoddol yn cael ei gynrychioli ymhlith y cyflogwyr a'r cyflogeion. Fel y nodir gan Borth Data'r Sector Gwirfoddol, y sector gwirfoddol yng Nghymru sy'n cyflogi 10% o bobl y wlad – bron 125,000 o gyflogeion. Mae bron 59,000 o'r rheini yn gweithio yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn aml gyda chysylltiadau agos â'r sector cyhoeddus. Yn y cyfamser, mae llawer o fudiadau cymunedol llawr gwlad yn cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, ond yn darparu gwasanaethau hanfodol ac yn cyflawni gweithgareddau caffael. Rhaid sicrhau nad yw ymgysylltu â'r sector yn cael ei weld fel ymarferiad 'ticio bocs'; yn hytrach, dylai fod yn un o sylfeini'r SPC.

8. Bydd y Prif Weinidog yn penderfynu pa gynrychiolwyr fydd yn eistedd ar yr SPC – gan gymryd enwebiadau gan TUC Cymru ynghylch cynrychiolwyr y gweithwyr. Mae'n hanfodol fod y broses benderfynu o ran enwebu yn dryloyw, gan ystyried y dylanwad enfawr posibl y gallai'r SPC ei gael.

9. Mae'n bwysig bod undebau llafur heb ymlyniad wrth blaid llywodraethu yn cael eu cynrychioli ar yr SPC, yn ogystal â'r rheini sydd.

## DYLETSWYDD STATUDOL AR RAI CYRFF CYHOEDDUS I GEISIO CONSENSWS NEU GYFADDAWD GYDA'U HUNDEBAU LLAFUR CYDNABYDDEDIG, NEU (OS NAD OES UNDEB LLAFUR CYDNABYDDEDIG) GYDA CHYNRYCHIOLWYR STAFF ERAILL, WRTH BENNU EU HAMCANION LLESIANT

10. Mae CGGC yn credu ei fod yn hanfodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio consensws â staff wrth lunio eu nodau llesiant. Dylai hyn yn bendant gynnwys undebau llafur, ond rhaid iddynt hefyd ymgysylltu â staff nad ydynt yn cael eu cynrychioli gan undeb er mwyn sicrhau eu bod yn clywed amrediad eang o leisiau. Eto, mae'r egwyddor cynnwys yn bwysig yma.

11. Er ein bod yn sylweddoli bod angen cyfaddawdu mewn negodiadau, rhaid sicrhau nad yw hyn yn cynnwys cyfaddawdu ar ymrwymiadau Sero Net neu fioamrywiaeth Llywodraeth Cymru, na gwaith ar gyflawni'r Nodau Llesiant, nac ymrwymiadau i feithrin y Gymraeg, trechu hiliaeth a hybu cynhwysiant ac amrywiaeth.

## DYLETSWYDD STATUDOL AR WEINIDOGION CYMRU I YMGYNGHORI Â

## PHARTNERIAID CYMDEITHASOL, CYFLOGWYR A CHYNRYCHIOLWYR GWEITHWYR DRWY'R CYNGOR PARTNERIAETH GYMDEITHASOL WRTH GYFLAWNI EU HAMCANION LLESIANT

12. Cred CGGC y dylid rhoi'r ddyletswydd hon ar waith, ond rhaid sicrhau nad hon yw'r unig ddull o ymgysylltu â phobl am ddatblygu cynaliadwy. Byddai cyfeirio at y pum ffordd o weithio o fewn Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol ar du blaen y Bil yn helpu i sicrhau bod ymgysylltiad ehangach o'r fath yn cael ei bwysleisio a'i annog.

## DIWYGIO ADRAN 4 O DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL DRWY ROI 'GWAITH TEG' YN LLE 'GWAITH ADDAS' YN Y NOD "CYMRU LEWYRCHUS" PRESENNOL

13. Mae CGGC yn cefnogi disgrifiadau Llywodraeth Cymru o waith teg fel 'helpu pobl i fyw bywydau hapusach ac iachach' a 'helpu i hyrwyddo cydlyniant, cyfranogiad a chyfiawnder cymdeithasol ac economaidd'. Fodd bynnag, hoffwn i Lywodraeth Cymru wneud cysylltiad eglur rhwng gwaith teg a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, yn hytrach na dim ond nodi'r gydberthynas rhwng 'gwobr deg' a lefelau cynhyrchiant. Mae Llywodraeth Cymru yn colli cyfle yma i ymwreiddio'r Cyflog Byw Gwirioneddol o fewn y ddeddfwriaeth hon ac i wneud cysylltiad uniongyrchol rhwng hwn a'r nod o gael Cymru fwy llewyrchus.

## DYLETSWYDD STATUDOL AR RAI CYRFF CYHOEDDUS I YSTYRIED CAFFAEL SY'N GYMDEITHASOL GYFRIFOL, I BENNU AMCANION MEWN PERTHYNAS Â NODAU LLESIANT, AC I GYHOEDDI STRATEGAETH GAFFAEL

14. Mae'n dda gweld Llywodraeth Cymru yn amlygu'r pecyn cymorth Buddion Cymunedol a'i bwysigrwydd i gaffael yn y ddogfennaeth ynghylch y Bil hwn. Mae'n hanfodol bod cyrff yn cael cyfarwyddyd i ystyried buddion cymunedol a gwerth cymdeithasol yn y strategaethau hyn a bod y sector gwirfoddol, fel partneriaid gwasanaeth tebygol, yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r strategaethau. Dylid hefyd cymryd camau i sicrhau bod gweithwyr ar gadwynau cyflenwi yn derbyn y Cyflog Byw.

15. Awgrymwn fod 'caffael cymdeithasol gyfrifol', o fewn Cymal 24(1) ac mewn mannau eraill, yn cael ei ddiwygio i 'gaffael cymdeithasol gyfrifol fyd-eang' i adlewyrchu'r nod 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn ymwybodol o ohebiaeth Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru â Chadeirydd y pwyllgor ar y pwnc hwn a chredwn eu bod yn gywir y dylai Llywodraeth Cymru fod yn fodel rôl mewn deddfwriaeth gaffael, yn enwedig gan ystyried pwyslais y Strategaeth Newid Ymddygiad a'r Cynllun Gweithredu Sero Net ar ddull gweithredu 'Tîm Cymru' ar faterion fel bioamrywiaeth, allyriadau carbon a defnyddio adnoddau byd-eang mewn modd cynaliadwy.

16. Dylai comisiynwyr ystyried y Cyflog Byw fel rhan allweddol o gyflawni gwerth cymdeithasol. Yn ôl adroddiad y 'Living Wage Foundation', All Work and Low Pay (Saesneg yn unig), mae 14.1% o swyddi'r sector gwirfoddol yn cynnig llai o gyflog na'r Cyflog Byw, o'u cymharu â 5.5% o swyddi'r sector cyhoeddus. Gall ystyriaethau gwerth cymdeithasol helpu i fynd i'r afael â hyn.

17. Dylai fod gofyniad ar gyrff i ystyried yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru a ddiweddarwyd yn ddiweddar ac a gaiff eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru wrth iddynt ddatblygu eu strategaethau.

18. Rhaid i Strategaethau Caffael lynu at y Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector, a dylid atgoffa awdurdodau lleol o hyn.

## RHAI CYRFF CYHOEDDUS I GYFLAWNI DYLETSWYDDAU RHEOLI CONTRACTAU I SICRHAU YR EIR AR DRYWYDD CANLYNIADAU SY'N GYMDEITHASOL GYFRIFOL DRWY GADWYNI CYFLENWI

19. Mae CGGC yn cefnogi nodau'r Economi Sylfaenol. Mae caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol yn rhan hanfodol o'r economi sylfaenol, ac mae ei angen i helpu pobl i ddod o hyd i swyddi yn eu hardaloedd eu hunain a chryfhau economïau lleol. Mae gan wasanaethau cyhoeddus gyllidebau sylweddol a gallent wneud gwahaniaeth enfawr i economïau lleol drwy fabwysiadu gwahanol strategaethau caffael sy'n cydnabod gwerth cymdeithasol a gwerth ychwanegol. Dylent gael y rhyddid i ddilyn arferion caffael sy'n cydnabod gwerth gorau a'r canlyniadau cymdeithasol gorau, yn hytrach na dim ond derbyn y pris isaf.

20. Rhaid deall caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol drwy lygaid yr holl Nodau Llesiant, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â chadwynau cyflenwi byd-eang yn ogystal â rhai lleol. Dylid cryfhau geiriad y Bil ar y pwynt hwn drwy gyfeirio at y dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

21. Dylid galw ar gaffaelwyr i ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau er mwyn cyflawni'r gwerth economaidd mwyaf posibl, a dylent lynu at gynllun Mwy nag Ailgylchu Llywodraeth Cymru.

## DYLETSWYDDAU ADRODD I'W GOSOD AR GYRFF CYHOEDDUS A GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â'R DDYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL A'R DDYLETSWYDD GAFFAEL

22. Mae craffu ar bob agwedd ar y Bil hwn, a chaffael yn gyffredinol, yn hanfodol felly byddem yn falch pe bai dyletswyddau adrodd yn cael eu gosod ar gyrff a Gweinidogion o ran y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a'r Ddyletswydd Gaffael. Gellid cynnwys dyletswyddau adrodd mewn dull ac amserlen adrodd sydd eisoes yn bodoli er mwyn lleihau'r aflonyddwch o ychwanegu mwy o fesurau adrodd at y dirwedd.

## TRAFODAETH BELLACH

23. Mae CGGC yn hapus i gwrdd â'r Pwyllgor, Llywodraeth Cymru neu Aelodau o'r Senedd i drafod y materion a godwyd yn yr ymateb hwn ymhellach.

David Cook

Swyddog Polisi, CGGC

Gorffennaf 2022

[redacted]